YSGOL BRYNREFAIL

PARTI PENDALAR

Eleni, trwy ganu carolau ym Morrisons, taith gerdded noddedig, raffl, coginio a gwerthu toesenni, haelioni busnesau lleol a haelioni'r cyhoedd yn nalgylch Ysgol Brynrefail fe gasglwyd £2,700 tuag at gyllido Parti Pendalar.

Cafwyd dechrau godidog i'r parti trwy ddawnsio disgo yn y neuadd i ganu Gwilym Rhys a Gethin cyn cyd gasglu yn y ffreutur i fwynhau llu o ddanteithion blasus ddaparwyd gan Mrs Rhian Owen a'i chriw.

Wedi'r bwyta fe glywyd cloch yn canu, a do yn wir, fe gyrhaeddodd Siôn Corn a'i griw o helpwyr siapus ac yn wir yr oedd o wedi cofio dod ac anrheg i bob un disgybl o Bendalar.

Tu cefn i'r cyfan yr oedd Gwen, Catrin a'r criw o flwyddyn 12 bu'n gweithio'n ddyfal ar yr holl drefniadau gydag anogaeth radlon Mr Harri Jones, Pennaeth y Chweched Dosbarth

.